

## PWYLLGOR CRAFFU PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd M.R. Wilson (Cadeirydd); Cynghorydd Mrs. P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.D.D. Carroll, G.A. Cox, R. Crowley, V.P. Driscoll, G. John, Dr. I.J. Johnson and Ms. S. Sivagnanam.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau) a P.G. King (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth)

### 241 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

### 242 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.W. Thomas.

### 243 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

### 244 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

### 245 Y DIWEDDARAF AM CORONAFEIRWS (CYF) –

Tynnodd Pennaeth Polisi a Thrawsnewid Busnes sylw at yr adroddiad a roddodd drosolwg lefel uchel o'r sefyllfa sydd ohoni o ran y coronafeirws a threfniadau'r Cyngor i ymateb i'r pandemig ac adfer ohono. Gan fod yr agenda wedi'i dosbarthu, manteisiodd y swyddog ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol a dywedodd wrth yr Aelodau fod y data presennol yn y swyddogaeth

sgwrsio i'r Aelodau ei ystyried pan oeddent yn dymuno gwneud hynny. Fodd bynnag, dywedwyd wrth y Pwyllgor mai'r ffigurau treigl 7 diwrnod presennol ar ddiwrnod y cyfarfod oedd 167 o achosion newydd o'r Coronafeirws wedi'u cadarnhau ym Mro Morgannwg, sef 125 fesul 100,000 o'r boblogaeth gyda 3.6% o'r profion yn positif.

Yng Nghymru adroddwyd bod 1,743 o achosion newydd yn ystod y 7 diwrnod diwethaf gyda chyfradd o 150.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth a 5.2% o'r profion yn rhoi canlyniadau positif. Gan fod y sefyllfa'n newid yn gyflym, gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson a oedd unrhyw wybodaeth leol bellach wedi dod i law ynghylch grwpiau oedran penodol yr effeithiwyd arnynt o ran y cyfraddau heintio presennol a pha fwriadau oedd o ran cefnogi busnesau lleol i gynnal asesiadau risg. Rhoddodd data Tableau Iechyd Cyhoeddus Cymru Gyfan ddarlun a oedd yn cadarnhau nifer uwch o achosion mewn grwpiau oedran iau a chytunodd Pennaeth y Gwasanaeth i dynnu rhywfaint o'r manylion ac anfon y wybodaeth at Aelodau'r Pwyllgor. Wrth gyfeirio at fusnesau, nodwyd bod y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn wir yn rhoi rhywfaint o gyngor, ond bod gwybodaeth hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru y gallai busnesau ei dilyn o ran asesiadau risg. Mewn ymateb i gwestiwn y Cadeirydd ynghylch a oedd unrhyw wybodaeth mewn perthynas â si am gynlluniau i roi trydydd brechlyn i bobl dros 50 oed a/neu bobl ifanc 16 a 17 oed; o ran y rhaglen atgyfnerthu, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth ei fod yn ymwybodol bod gwaith cynllunio ar y gweill ond y byddai'n gofyn am fwy o fanylion er gwybodaeth i'r Aelodau. O ran brechlynnau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, disgwyliad datganiad gan y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio yn fuan. Dywedodd yr Arweinydd nad oedd unrhyw benderfyniad penodol ynglŷn â rhaglen atgyfnerthu wedi'i wneud eto ac o ran brechiadau ar gyfer plant ysgol uwchradd, y meddylfryd presennol oedd peidio â brechu oherwydd y ffaith ei bod yn debygol na fyddent yn cael y salwch mor wael â phobl hŷn. Roedd brechiadau'n dal i gael eu rhoi, gyda'r Arweinydd yn annog y rheiny sy'n gymwys i drefnu i gael y brechiad cyn gynted â phosibl.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor

ARGYMHELLIR - Y dylid nodi cynnwys yr adroddiad a'r Atodiad

### Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

## 246 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y CYNLLUN RHEOLI ASED AU CORFFORAETHOL (CYF) –

Mae'r adroddiad wedi'i atodi at y sylw o gyfarfod y Cabinet ar 5 Gorffennaf, 2021 yn rhoi manylion i'r Pwyllgor am y cynnydd drwy gydol 2020/21 mewn perthynas â'r pum amcan a restrwyd a'r targedau ychwanegol yn y cynllun ar gyfer 2019/22. Nodwyd bod pandemig COVID-19 wedi golygu y bu oedi ar rai camau gweithredu, roedd eraill wedi'u cyflymu i adlewyrchu brys rhai penderfyniadau'n ymwneud ag asedau. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth hefyd y bu'n rhaid ailflaenoriaethu'r capasiti o fewn y Tîm Ystadau a bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud gyda

phartneriaid, gan gyfeirio at y gwaith mewn perthynas â llety ar gyfer brechu torfol a chadw a dosbarthu cyfarpar diogelu personol (CDP). Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson sut y byddai'r Cyngor yn symud ymlaen gyda rhaglen 2022 / 2025 ac a oedd strategaeth hefyd ar gyfer defnyddio llety wrth symud ymlaen a'r effaith economaidd ehangach ar gymunedau wrth resymoli penderfyniadau mewn perthynas ag ystadau'r Cyngor. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth mewn ymateb fod y cynllun tair blynedd presennol i fod i ddod i ben yn y flwyddyn ariannol gyfredol a fyddai'n cael ei ddiweddarau ac yn cynnwys cynllun gweithredu diwygiedig. Roedd cytundeb hefyd gydag lechyd ar gyfer defnyddio Holm View a phan nad oedd ei hangen mwyach, byddai trafodaethau pellach ar ddefnydd. Ar hyn o bryd, yn ei barn hi, nid oedd y Cyngor mewn sefyllfa i ystyried a chynllunio'r rhesymoli nes bod effaith tymor hwy staff sy'n gweithio gartref wedi'i hystyried. Roedd yr arolwg presennol a gynhaliwyd gyda'r staff wedi dangos y byddai'n well gan y rhan fwyaf o weithwyr ddull hybrid wrth symud ymlaen gyda rhai dyddiau yn y swyddfa ac eraill yn gweithio gartref.

Tynnodd y Cynghorydd John sylw'r Pwyllgor at y ddau ased yn Llanilltud a drosglwyddwyd i Wasanaeth Gwirfoddoli Morgannwg (GGM) h.y. y ganolfan ieuencid a WIVVIC, a'r ffaith bod hyn wedi gweithio'n eithriadol o dda.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Driscoll ynghylch yr amser a gymerwyd i brydlesu hen floc toiledau Nell's Point, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod y brydles wedi'i chytuno a'i bod yn deall bod cais cynllunio i'w wneud, fodd bynnag, heb os roedd y problemau yr oedd y diwydiant lletygarwch wedi'u hwynebu o ganlyniad i'r pandemig wedi ychwanegu at yr oedi.

Gofynnodd y Cynghorydd Ms. Sivagnanam, gan roi sylw i'r Cymin, a allai'r Cyngor fuddsoddi yn yr eiddo yn y byrdymor yn yr un modd y mae wedi'i wneud gyda Phafiliwn y Pier. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod tîm prosiect eisoes ar waith ac ar hyn o bryd roedd yn edrych ar yr opsiynau ar gyfer y safle fel blaenoriaeth uchel. Gofynnodd y Cynghorydd Ms. Sivagnanam wedyn i aelodau ward lleol gael eu cynnwys mewn unrhyw drafodaethau wrth symud ymlaen ynglŷn â'r Cymin.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ar y sefyllfa bresennol o ran South Lodge ac a oedd rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer yr hydref yn cael ei hystyried ar gyfer Pafiliwn y Pier. Cytunwyd y byddai mwy o wybodaeth am agor South Lodge yn cael ei cheisio er gwybodaeth i'r Aelodau a dywedwyd bod tîm wrthi'n edrych ar raglen o ddigwyddiadau gan roi sylw i gyfyngiadau ymbellhau cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – BOD yr adroddiad yn cael ei nodi gyda'r sylwadau a wnaed yn y cyfarfod fel isod ac yn cael ei gyfeirio at y swyddog perthnasol fel y bo'n briodol a bod yr ymatebion i ymholiadau a godwyd yn cael eu hanfon at Aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth:

- South Lodge – y dyddiad yr oedd yn debygol o agor;

- Ymgynghori â'r Cynghorwyr Ms. R. Sivagnanam a N.C. Thomas fel aelodau'r Ward Lleol ar gyfer Y Cymin ar unrhyw opsiynau i'w nodi ar gyfer defnyddio'r Cymin;
- Pafiliwn Pier – bod rhaglen ddigwyddiadau pan gaiff ei pharatoi yn cael ei hanfon at yr Aelodau er gwybodaeth

### Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

#### 247 CAU CYFRIFON 2020/21 (CYF) –

Dywedodd yr adroddiad, a gyfeiriwyd at y Pwyllgor i'w ystyried gan y Cabinet, fod dim ennill na cholli ar ddiwedd y flwyddyn o ran refeniw ar ôl trosglwyddiadau net i gronfeydd wrth gefn o £12.206m, sy'n cynnwys £946k a dynnwyd o Gronfa'r Cyngor a £13.152m a drosglwyddwyd i gronfeydd wrth gefn penodol. £11.868m oedd gan Gronfa'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021. Nodwyd bod y ffigurau yn yr adroddiad yn rhai dros dro ac roeddent i'w hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddiwedd mis Gorffennaf gyda'r bwriad o'u cwblhau i'w cymeradwyo gan y Cyngor yn unol â'r amserlen bresennol sef diwedd mis Medi.

Manteisiodd y Cyngorydd John a'r Cyngorydd Dr Johnson ar y cyfle i ddiolch i Bennaeth y Gwasanaeth a'i thîm am adroddiad manwl rhagorol a'r gwaith a wnaed hyd yma mewn cyfnod anodd gydag effaith pandemig COVID 19 a'r gwaith y bu'n rhaid ei wneud o ganlyniad.

Fodd bynnag, gofynnodd y Cyngorydd Dr Johnson a oedd unrhyw amodau o ran yr arian a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) oherwydd incwm Treth Gyngor a gollwyd a sut y byddai'r arian yn effeithio ar gyfraddau casglu Treth Gyngor wrth symud ymlaen. Hefyd, a oedd unrhyw gynigion ar gyfer defnyddio'r tanwariant o £7m ar y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)? Roedd yr arian Treth Gyngor wedi dod gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel taliad untro ac nid oedd unrhyw amodau penodol ynghlwm pe bai'r Cyngor yn gallu casglu arian sy'n weddill wrth symud ymlaen. O ran y CRT, bu'n newid mawr oherwydd ar ddiwedd mis Tachwedd gobeithiwyd y gellid talu am wariant ar y Rhaglen Gyfalaf ond nid felly y bu. Hefyd, er bod ôl-ddyledion rhent yn ystod y flwyddyn, roedd arian ar ôl wedi talu amdanynt ond wrth symud ymlaen roedd yn bwysig adolygu prosesau gosod rhenti a'r cynllun busnes o ganlyniad.

I gloi, dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor, yn ei farn ef, wedi bod yn iawn i fod yn ofalus a chadw cronfeydd wrth gefn derbyniol, yn enwedig o ystyried effaith y pandemig a hefyd adleisiodd sylwadau blaenorol y tîm ar y ffaith bod yr adroddiad yn rhagorol ac yn glir.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

## ARGYMHELLWYD -

- (1) nodi'r adroddiad a'r mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd.
- (2) y dylid diolch i swyddog Adran 151 a'r Tîm Cyllid am adroddiad rhagorol ac yn arbennig ei gynnwys clir.

### Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r gwaith caled a wnaed gan y Tîm Cyllid.

## 248 MONITRO REFENIW AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2021 (CYF) –

Tynnodd Pennaeth y Gwasanaeth, wrth gyflwyno'r adroddiad a gyfeiriwyd gan y Cabinet i'w ystyried gan y Pwyllgor, sylw at y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai arian yn cael ei dderbyn i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a wynebir oherwydd y pandemig hyd at 30 Medi, 2021. Fodd bynnag, nodwyd byddai'r sefyllfa referniw ar gyfer 2021/22 yn parhau'n heriol i'r Cyngor yn weithredol ac yn ariannol oherwydd goblygiadau parhaus y pandemig.

Fodd bynnag, nodwyd ymhellach gan y Cadeirydd ei bod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol bresennol ac y byddai'r tîm Cyllid a'r Aelodau yn cadw golwg ar y gwaith wrth symud ymlaen.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD - nodi'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2021/22 yr Awdurdod.

### Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi bod y sefyllfa yn adlewyrchu'r cynnydd ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

## 249 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 31 MAI 2021 (CYF) –

Rhoddodd y sylw a'r adroddiad y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf gyda Phennaeth y Gwasanaeth yn tynnu sylw'r Aelodau at y llithriad o £22.9m a gyflwynwyd.

Gofynnodd y Cyngorydd Dr Johnson, wrth gyfeirio at baragraffau 2.36 a 2.37 yr adroddiad, am eglurhad ar Grant Tlodi Bwyd CLILC ac ad-daliad Sied Dda i LIC. O ran y Sied Dda, bu'n gytundeb gyda Llywodraeth Cymru a'r Cyngor y byddai arian ar gyfer tir a dderbyniwyd yn cael ei rannu rhwng y ddau a'r cytundeb ei dyddio'n ôl i

fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn yr Ardal Arloesi yn y Barri beth amser yn ôl, felly'r angen yn awr i ddyrannu'r arian yn y Rhaglen. O ran y Grant Tlodi Bwyd, nid oedd Pennaeth y Gwasanaeth yn gallu rhoi'r manylion yn y cyfarfod ond byddai'n trefnu i'r wybodaeth gael ei hanfon at yr Aelodau cyn gynted â phosibl.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cyngorydd Drake ynghylch gollyngiad dŵr diweddar yn Neuadd Tref y Barri, cytunodd Pennaeth y Gwasanaeth i ofyn am yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith atgyweirio ac y byddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau yn unol â hynny.

Wedi ystyried y sylw, penderfynodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – nodi'r cynnydd a wnaed ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a nodi bod y sefyllfa yn adlewyrchu'r cynnydd ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol.

#### 250 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (RG) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 4 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 a 31 Mawrth 2021 a atodir yn Atodiad A wrth gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol. Roedd yr adroddiad Cyflawni Blynyddol Llawn (Rhan Dau'r Cynllun Gwella) i'w gyflwyno i Bwyllgorau yn yr hydref.

Gofynnodd y Cyngorydd Dr Johnson, wrth gydnabod y manylion gyda'r adroddiad, pa system o flaenoriaethu oedd yn cael ei datblygu yn ystod y pandemig ac ar gyfer y meysydd lle nad oedd data na meincodi ar gael, sut oedd y tîm yn asesu'r ffigurau hynny. Byddai'r broses dros yr haf yn cynnig rhywfaint o'r data i gynorthwyo lle bo angen gan fod rhai o'r mesurau wedi'u hadrodd. Ataliwyd data dangosyddion perfformiad statudol gan yr Uned Ddata yn ystod y pandemig, ond penderfynodd y Cyngor gasglu data lle'r oedd yn bosibl gwneud hynny.

O ran y meysydd sy'n tanberfformio, casglwyd y wybodaeth am ddata a chyfarfu'r tîm perfformiad â'r Cyfarwyddwyr i ystyried pa gamau adferol y dylid eu gweithredu neu a ystyriwyd wrth fynd i'r afael â thanberfformio ac yna cynhaliwyd trafodaethau manwl gyda'r Uwch Dîm Arwain.

Yn dilyn ymholiad pellach ynghylch cyhoeddi data Cymru Gyfan, cydnabuwyd unwaith eto na fyddai data Cymru Gyfan mor gadarn o ganlyniad i'r pandemig ac felly ni fyddai'r un lefel o gymaroldeb ag Awdurdodau Lleol ag mewn blynyddoedd blaenorol.

Wrth gyfeirio at y cam gweithredu; AD /ADO2 yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu safon gwasanaeth Corfforaethol, gofynnodd y Cyngorydd John sut yr oedd hyn yn

debygol o gael ei gyflawni. Mewn ymateb, dywedodd Pennaeth y Gwasanaeth fod rhywfaint o waith paratoi wedi'i wneud hyd yma i sefydlu safonau corfforaethol.

Manteisiodd y Cadeirydd a'r Cynghorydd John ar y cyfle i ddiolch i Bennaeth y Gwasanaeth a'i dîm am yr holl waith caled yn y maes hwn.

#### ARGYMHELLWYD

- (1) BOD cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.
- (2) Y dylid diolch i'r Tîm Gwella a Datblygu am eu gwaith caled wrth gynhyrchu'r adroddiad gan roi sylw arbennig i lefel y manylder sydd ynddo.
- (3) BOD adroddiad diweddarar ar waith y Ganolfan Gyswllt gan gynnwys datblygiad ei blatfform profiad cwsmeriaid digidol newydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl cyfnod yr haf.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

(1 a 2) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad

- (3) I'w ystyried gan y Pwyllgor.

251 ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) -

Diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith ddiweddar ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2021/22. O ystyried y sylwadau a roddwyd yn y cyfarfod gan y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd ynghylch statws argymhellion y Pwyllgor yn yr atodiadau a'r trafodaethau yn ymwneud â'r rhaglen waith, penderfynwyd

#### ARGYMHELLWYD

- (1) BOD statws y camau gweithredu a restrir fel wedi eu cwblhau yn Atodiad A i'r adroddiad yn cael ei dderbyn, ynghyd â statws Cofnod rhif 137, nodi bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani gan Aelodau wedi'i hanfon ar 15 Gorffennaf 2021 drwy e-bost.
- (2) BOD Blaenraglen Waith ddiweddaraf y Pwyllgor sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad yn cael ei chymeradwyo a'i lanlwytho i wefan y Cyngor yn amodol ar ychwanegu y dylid cyflwyno adroddiad ar waith y Ganolfan Gyswllt gan gynnwys datblygu ei rhyngwyneb i'r Pwyllgor yn hydref 2021.

#### Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.